## Sut i Ymgeisio

Er mwyn ymgeisio, anfonwch eich **CV** trwy e-bost (yn cynnwys eich manylion cyswllt, addysg a hanes cyflogaeth) a **llythyr esboniadol** at jobs@hijinx.org.uk

Yn eich llythyr esboniadol, dywedwch wrthym ni pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y mae eich profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb person.

Rhowch **deitl y swydd** yn llinell pwnc eich e-bost:

---

## Awgrymiadau Da i Ymgeisio

- **PWYSIG:** Er mwyn helpu i leihau rhagfarn anymwybodol, mae popeth y byddwch yn ei anfon atom ni yn cael ei droi yn ddienw ac rydym yn adolygu llythyrau esboniadol *cyn* edrych ar CV. Mae hynny'n golygu na fyddwn yn gweld dim o'ch manylion personol – fel eich enw, addysg neu hanes cyflogaeth – nes byddwn wedi gorffen ein rownd gyntaf o lunio rhestr fer. Felly gofalwch bod eich llythyr esboniadol yn cynnwys popeth yr ydych am i ni ei wybod am y rheswm pam y gallech chi fod yn iawn ar gyfer y swydd.
- Os nad ysgrifennu yw eich dewis o ran cyfathrebu, gallwch anfon **fideo neu ffeil sain** atom (hyd at 5 munud) yn hytrach na llythyr esboniadol ysgrifenedig. Os byddwch yn dewis cyflwyno recordiad, bydd y panel llunio rhestr fer yn clywed eich llais (ac, os byddwch yn cyflwyno fideo, yn gwybod sut yr ydych yn edrych) ond ni fyddant yn gallu gweld eich CV, eich enw na'ch profiad blaenorol. Pa bynnag ffordd y byddwch yn anfon y wybodaeth atom ni, mae'n bwysig i chi roi gwybod i ni pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y mae eich profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb person.
- Nid oes raid i chi fedru rhoi tic ym mhob blwch ar y fanyleb person. Os oes un neu ddau o feysydd nad ydych yn cyfateb iddyn nhw'n llawn, mae hynny'n iawn. Rhowch wybod i ni sut y byddech yn dod â sgiliau neu brofiad trosglwyddadwy – a byddwn yn barod i dderbyn ffyrdd y gallwn gefnogi eich datblygiad yn y swydd.
- Mae'n syniad gwych gofyn i ffrind neu gydweithiwr wirio eich cais cyn i chi ei gyflwyno.
- Os gwahoddir chi i gael cyfweliad, byddwn yn anfon y cwestiynau atoch ymlaen llaw. Rydym am roi amser i chi ystyried a pharatoi, fel eich bod yn gallu rhoi'r ateb gorau posibl.

---

# Cwestiynau Cyffredin

## A allaf weithio o gartref?

Mae'r rhan fwyaf o'n tîm yn gweithio mewn ffordd hybrid, yn rhannu eu hamser rhwng eu cartref a'r swyddfa. Bydd pob disgrifiad swydd yn amlinellu beth sy'n ddisgwyliedig ar gyfer y swydd benodol honno.
Sylwer, rhaid i chi fod â'r **hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig**.

## Rwy'n Fyddar, anabl, niwroamrywiol neu â chyflwr iechyd tymor hir. A fydd y swydd yn hygyrch i mi?

Yn bendant. Mae Hijinx yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth a allwn i fodloni anghenion hygyrchedd – yn y broses ymgeisio ac yn y gweithle. Gallwn hefyd eich cefnogi i ymgeisio am **Fynediad at Waith** os oes arnoch angen adnoddau neu offer ychwanegol.
Rydym yn adolygu ein prosesau iechyd a diogelwch yn gyson i sicrhau bod amgylchedd cynhwysol i bawb.

## Beth ydych chi'n ei wneud i wneud y broses gyfweld yn hygyrch?

Byddwn yn gofyn a oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd pan fyddwn yn eich gwahodd i gyfweliad a byddwn yn gwneud popeth a allwn ni i'w bodloni.
Rydym yn anfon ein cwestiynau cyfweliad ymlaen llaw bob amser er mwyn i chi allu paratoi, ymchwilio a rhoi atebion sy'n adlewyrchu eich gwir allu - rydym yn gwybod nad yw pawb yn perfformio ar ei orau dan bwysau.

## Beth os na fyddaf yn medru dod ar ddyddiad y cyfweliad?

Byddwn yn cynnwys y dyddiad cyfweliad arfaethedig yn yr hysbyseb swydd bob amser i'ch helpu i gynllunio ymlaen llaw. Os ydych yn gwybod yn barod na fyddwch ar gael, rhowch wybod i ni yn eich e-bost ymgeisio.
Peidiwch â phoeni - ni fydd hyn yn effeithio ar eich cais, gan na fydd y panel cyflogi yn gweld y neges hon tan ar ôl llunio'r rhestr fer. Os gwahoddir chi i gyfweliad, fe fyddwn yn gwneud ein gorau i gynnig dyddiad arall i chi.

